Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Plws Ysgol Gwenffrwd
# Ysgol Gwenffrwd
# Stryd Chwitffordd
# Treffynnon
# CH8 7NJ

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/09/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Plws Ysgol Gwenffrwd. Mae'n cwrdd mewn ystafell yn Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum prynhawn yr wythnos rhwng 12.45 y prynhawn a 2.45 y prynhawn yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 25 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae rhan fwyaf o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel ei famiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pedwar ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd y rheolwraig yn ei swydd ym mis Medi 2016. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2018 a gan Estyn ym mis Mehefin 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn
- rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol
- rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a thrwyadl i herio'r plant yn llwyddiannus
- addysgu diddorol a difyr yn gwella deilliannau'r plant yn bwrpasol
- ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i wella profiadau dysgu a deilliannau'r plant
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a gweithgar
- amgylchedd dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rheolwraig a'r arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- gweithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol yn arwain at osod targedau perthnasol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant pwrpasol
- defnydd cydwybodol a defnyddiol o wasanaethau cymorth ac arbenigol
- cefnogaeth weithredol a bwriadus gan y pwyllgor rheoli
- partneriaethau cadarn gyda'r rhieni a'r ysgol
- defnydd synhwyrol o gyllid i sicrhau gwelliannau yn yr adeilad ac yn yr ardal allanol

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Amseru a threfnu'r sesiynau torfol yn well i gynnal diddordeb pob un plentyn

A3 Darparu cyfleoedd dyddiol i ddatblygu annibyniaeth pob plentyn yn ystod amser byrbryd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae llawer ohonynt yn wybodus, yn ddeallus ac yn dysgu'n dda. Mae rhan fwyaf ohonynt yn datrys heriau a thasgau ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i holi gan yr ymarferwyr yn yr adeilad a thu allan. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dechrau defnyddio patrymau iaith cywir ac ymadroddion cyfarwydd yn annibynnol yn y Gymraeg, wrth iddynt drafod y tywydd ac esbonio'u teimladau. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn trafod digwyddiadau mewn storïau fel unigolion ac mewn grwpiau yn hyderus fel antur dau gymeriad ar lan y môr. Mae mwyafrif o'r plant yn ynganu'n glir ac yn defnyddio'r iaith yn synhwyrol i fynegi barn a hoffter personol yn effeithiol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn ystyrlon ac yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn bwrpasol. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn dechrau meistroli medrau llafar cynnar mewn amser buan.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn ystyried diben y stori, y lluniau a phwrpas yr ysgrifen yn dda. Maent yn ailadrodd trefn storïau yn synhwyrol a rolau'r cymeriadau yn ddoeth. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel creaduriaid sy'n gysylltiedig â'r môr yn ddeallus. Mae mwyafrif y plant yn cysylltu gweithredoedd ag emosiynau yn ystyrlon, fel yn hanesion Dewi Sant ac wrth drafod bywydau pobl o wledydd estron. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn cymysgu lliwiau gwahanol yn greadigol wrth beintio i greu darlun o bili-pala cymesur. Mae llawer ohonynt yn arbrofi gydag ysgrifennu cynnar ac yn deall ei bwrpas wrth gopïo llythrennau o'u henwau a rhifau gyda brwshys a dŵr ar ochrau'r sied tu allan. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn rheolaidd wrth hunangofrestru.

Mae llawer o'r plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump heb gymorth oedolyn yn hyderus. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt drafod siapiau a'u cymharu, a rhifo cregyn yn y dŵr yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn rhifo dotiau ar flociau a'u cyfatebu i rifau yn bwrpasol wrth adeiladu wal. O ganlyniad, mae ychydig ohonynt yn cyfrif â chywirdeb i ddeg a thu hwnt heb anogaeth.

Mae llawer o'r plant yn didoli gwrthrychau gwahanol yn ôl lliw a siâp yn llwyddiannus ac yn rhifo sawl gwrthrych o bob math sydd ganddynt yn gywir fel ceir a thractorau. Mae ychydig o'r plant yn deall sut i ddechrau bondio rhifau at bump yn effeithiol, gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau. Mae rhan fwyaf o'r

plant yn defnyddio iaith a chysyniadau mathemategol yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol.  Er enghraifft, maent yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth gymharu gwrthrychau â'i gilydd ac os ydynt yn ‘fach’, yn ‘fawr’, yn ‘llai’ neu’n ‘fwy’ ac yn ‘drwm’ neu’n ‘ysgafn’.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio tiliau, camerâu a theganau electronig mewn gweithgareddau bob dydd.  Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu defnydd o feddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau meddwl, TGCh, rhifedd neu lythrennedd.

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac maent yn perfformio’n frwdfrydig wrth ganu a gwneud ystumiau i gyfatebu â’r geiriau.  Mae llawer o’r plant yn dewis offer a deunyddiau yn bwrpasol i ymestyn eu creadigrwydd fel arbrofi â thoes a phaent, canu a thrafod gyda meicroffonau a gwehyddu rhubanau ar y ffens allanol.  Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.  Er enghraifft, maent yn gyrru beiciau’n fywiog yn yr ardal allanol, dringo’n frwdfrydig ar gromen antur a llithro’n fentrus ar lithren yn yr ardal allanol.  O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn datblygu’n ddysgwyr cyflawn yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad.  Mae llawer ohonynt yn diddori yn eu gwaith wrth ymateb i weithgareddau heriol.  Mae rhan fwyaf o’r plant yn rhannu a gweithio’n synhwyrol gyda’i gilydd.  Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â dŵr a thywod a phlannu pys a thatws yn yr ardal dyfu.  O ganlyniad, maent yn canolbwyntio’n fwriadus ar eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dechrau mynegi barn a’u hoffterau personol yn dda.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt benderfynu parhau â thasgau penodol neu ddechrau gweithgareddau newydd o’u dewis eu hunain naill ai yn yr adeilad neu yn yr awyr agored.  Mae llawer ohonynt yn esbonio pa feysydd dysgu sy’n cynnwys eu hoff gweithgareddau yn synhwyrol fel yr ardal adeiladu a’r ardal gartref.  Maent yn dewis cydbwyso wrth ddringo ar y trên pren tu allan a chanu rhigymau cyfarwydd yn frwdfrydig ar ddiwedd y sesiwn.  O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn ddysgwyr hyderus sy’n gweithio’n bwrpasol yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais.  Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a’i gilydd.  Mae bron pob un yn gwrando’n astud ar oedolion, er enghraifft wrth iddynt aros eu tro i wisgo ffedogau cyn peintio a llinellu’n dawel i gerdded i’r ardal allanol.  Mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr heb lawer o anogaeth gan ymarferwyr ar ôl defnyddio’r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored.  Maent yn ddeallus wrth gofio bod glendid yn bwysig i osgoi heintiau drwg ac, o’r herwydd, yn helpu i gynnal bywydau iachus.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r rheolwraig, yr arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu gweithgareddau difyr ar draws yr holl feysydd dysgu. Ar y cyfan, mae eu gwaith dyddiol yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Effaith eu gwaith yw dysgwyr brwdfrydig sy'n gweithio'n ddiwyd yn yr adeilad a thu allan. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y gegin fwd a chreu cacennau a chyfathrebu â'i gilydd trwy ddefnyddio meicroffonau. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm diddorol, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn ddeallus. Mae'r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu yn drwyadl iawn ac yn bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cyfatebu rhifau ar gerbydau â mannau parcio yn yr ardal allanol a rholio ceir i lawr cafnau i gymharu eu cyflymder. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y plant yn dda. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol ac effeithiol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y tywydd a thrafod eu teimladau gyda wynebau gwahanol. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu yn gadarn ac yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn nysgu'r plant.

Mae datblygu'r iaith Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau cyson dda o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau ysgogol ac atgyfnerthiadau rheolaidd. Maent yn herio a holi'r plant yn bwrpasol yn yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n sylweddol ac maent yn ymateb â geirfa ac ymadroddion cyfarwydd mewn amser byr.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio cacennau traddodiadol ac astudio cestyll a'r tirwedd lleol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio cyfarpar electronig. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau'r plant yn ddigon effeithiol. Nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio meddalwedd a chaledwedd yn ddigon ddeallus er mwyn datblygu medrau TGCh y plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn dda. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn annibynnol a gyrru beiciau'n fywiog i wella'u profiadau corfforol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio

cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol trwy ddefnyddio sialc, creonau, paent a dŵr i wneud marciau a defnyddio teclynau'r gegin yn fwriadus i greu synau anarferol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae'r profiadau fel ymweliadau â'r orsaf dân, siopau ac archfarchnadoedd lleol a'r parc cyfagos yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymwelwyr fel yr heddlu, glanweithydd deintyddol a'r milfeddyg yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn eu herio'n gyson drwy dasgau ffocws a gweithgareddau parhaus ysgogol. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu cymell i lwyddo. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae i wella deilliannau'r plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw arbrofi wrth adeiladu tyrrau yn yr ardal adeiladu a pheintio wrth îsl yn gwbl annibynnol.

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol a diogel wrth osod ffiniau cadarn yn eu lle trwy gydol y sesiwn. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, nid ydynt yn amseru a threfnu'r sesiynau torfol yn effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn cynnal diddordeb pob un plentyn trwy gydol y sesiwn.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn effeithiol. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant yn yr adeilad a thu allan. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd da i'r plant wneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio holi'n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Gwneir hyn yn fedrus wrth drafod teimladau ei gilydd ac arbrofi â chyfaint blychau penodol ar ôl eu llenwi â thywod.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddeilliannau'r plant trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r trefniadau asesu fel arfarniadau defnyddiol. O ganlyniad, maent yn defnyddio trafodaethau dyddiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn dda. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni drwy lyfrynnau ac anodiadau defnyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau bywiog yn llwyddiannus i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill a dweud diolch.

Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ymysg y plant yn llwyddiannus. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r arfer o bennu 'helpwr y dydd', sy'n nodi dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfle i dywallt diod a gosod llestri, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i weini ei gilydd a'u cyfoedion o amgylch y bwrdd bwyta yn ddyddiol heb ymyrraeth ymarferwyr.

Mae gan yr ymarferwyr drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus, fel hyrwyddo gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol trwy yrru beiciau. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae'r rheolwraig yn cydlynu unrhyw ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y plant ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd gyda'r ymarferwyr eraill. Maent yn nodi mannau cychwyn y plant yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae'r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol, fel y lleferydd iaith, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu anghenion unigolion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cefnogol drwy weithgareddau dyddiol a'r agweddau cadarnhaol a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae'n gymuned gynhwysol ac mae'r plant yn cael mynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol a chofnodion manwl. Mae'r ymarferwyr yn herio plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol, gofalgar a thyner.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwyliau penodol fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae'r plant yn gallu cyrraedd y cyfarpar heb drafferth. Mae hyn yn

hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus, wrth iddynt drafod llyfrau, defnyddio cyfarpar i adeiladu ac ymchwilio a gwneud marciau gyda gwahanol gyfryngau. O ganlyniad, caiff ystod eang yr adnoddau eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol ddiddorol yn cael ei defnyddio'n bwrpasol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn synhwyrol, wrth siopa yn yr archfarchnadoedd a chwarae yn y parc, er mwyn atgyfnerthu'r cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwraig a'r arweinydd wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer gwella arferion y lleoliad, sydd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad strategol pwrpasol i waith y lleoliad yn ddyddiol ac yn y tymor hir. Maent yn monitro'r ddarpariaeth ddyddiol yn drylwyr i sicrhau ei bod yn ddifyr a diddorol ac yn sbarduno'r plant tuag at ddeilliannau llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn trafod cynlluniau a phwrpas y gweithgareddau dyddiol, cyn iddynt ddechrau'r sesiynau, i dargedu anghenion unigol y plant yn ddeallus.

Mae'r rheolwraig yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn bwrpasol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol, cofnodi asesiadau dyddiol yn drwyadl iawn a datblygu'r ardal allanol yn llwyddiannus, drwy ennill grantiau o gwmni lleol. O ganlyniad, mae gan y rheolwraig a'r ymarferwyr profiadol ddisgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a safonau'r plant.

Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Maent yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu geirfa a phatrymau iaith safonol yn y Gymraeg ac wrth ddelio ag anghenion personol plant unigol.

Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae'r rheolwraig a'r arweinydd wedi llwyddo i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac o ganlyniad, yn rhoi o'u gorau.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth defnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian ac yn monitro'r cyllid yn gyson. Mae'r gweithdrefnau gweinyddol yn drylwyr ac yn gefnogol i anghenion y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn deall yn glir pa agweddau sy'n gryf yn y lleoliad a pha agweddau sydd angen eu gwella. Mae cofnodion cyson a manwl y pwyllgor rheoli yn adlewyrchiad clir o'r ddealltwriaeth gadarn sydd ganddynt o waith y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn llwyddiannus, yn ogystal â

datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol. Maent yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg, trwy ddilyn canllawiau Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn bwrpasol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd i'w datblygu yn effeithiol.

Mae'r rheolwriag, yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio cydwybodol sy'n weladwy'n ddyddiol, ynghyd â'r cyfarfodydd cyson, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r hunanarfarnu'n ystyried yn bwrpasol farnau'r ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn adeiladu darlun cyflawn o waith y lleoliad.

Mae'r rheolwraig yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau datblygu effeithiol. Mae hi a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill, er enghraifft wrth ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol fel rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith yn ddeallus.

Mae'r rheolwraig, yr arweinydd a'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol strategaethau i lwyddo. Maent yn barod iawn i dderbyn awgrymiadau gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae'r cyngor ar sut i ddatblygu'r cynllunio a sut i asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn gwbl weithredol erbyn hyn. O ganlyniad, maent wedi datblygu'n llwyddiannus ac wedi gwella arferion y lleoliad er lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae cydweithrediad synhwyrol yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin ac mae'r cydweithio cadarnhaol yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad yn dda. O ganlyniad, mae'n cefnogi'r hyfforddiant a'r dogfennaeth reolaethol yn bwrpasol a gweithredol.

Mae'r lleoliad wedi adeiladu partneriaethau cadarnhaol a defnyddiol gydag archfarchnadoedd lleol a chwmni cyfagos. Maent wedi cydweithio'n dda i ddatblygu'r ardal allanol er lles y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau bwriadus i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy'n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei gysylltiadau llewyrchus â'r ysgol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau'r ysgol a derbyn cyngor defnyddiol wrth y brifathrawes ac athrawes gyswllt yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, wrth i'r plant ddechrau ac ymgartrefu yn yr ysgol, yn effeithiol ac wedi sefydlu'n gadarn.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant fel cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, datblygiadau’r cyfnod sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r rheolwraig, yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau’n bwrpasol. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn. Maent yn dîm sefydlog, cadarn ac effeithiol.

Mae’r rheolwraig a’r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn enghraifft effeithiol o gymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio diwyd rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cynnig profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n greadigol i gefnogi’r dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd doeth o’r ardal allanol am weithgareddau corfforol, ymholiadau ac ymchwiliadau.

Mae gan y rheolwraig a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â chyllido’r lleoliad. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n bwrpasol. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd bod y ddarpariaeth effeithiol a’r arweinyddiaeth bwrpasol yn effeithio ar ddeilliannau’r plant yn gadarnhaol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |